**Rhif:** WG50097

ISBN: **978-1-83625-415-7**

Llywodraeth Cymru

# Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy

## Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach

### Crynodeb o'r ymatebion i Gwestiwn CLl13:

‘Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai’r corff llywodraethiant nodi sut y mae’n bwriadu cydweithredu â’r sefydliadau a nodir, gan gynnwys sut y byddant yn osgoi dyblygu a gorgyffwrdd wrth arfer eu swyddogaethau. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn?’

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2024

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Environmental.Governance@gov.wales

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: dolen

## Y cefndir

1. Yn sgil gwall gweinyddol, nid oedd y cwestiwn hwn yn bresennol yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, gwnaethom gysylltu yn uniongyrchol â'r holl ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn dilyn dyddiad cau'r ymgynghoriad a thynnu sylw at y gwall. Gwnaethom roi'r cwestiwn ychwanegol i bob ymatebydd a phythefnos ychwanegol i ddarparu ymateb.

2. Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Bydd ymateb Llywodraeth Cymru i'r crynodeb hwn yn cael ei gynnwys yn yr ymateb polisi cyffredinol i'r ymgynghoriad.

## Dadansoddiad o ymatebion i CLl13


**CLl13: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai’r corff llywodraethiant nodi sut y mae’n bwriadu cydweithredu â’r sefydliadau a nodir, gan gynnwys sut y byddant yn osgoi dyblygu a gorgyffwrdd wrth arfer eu swyddogaethau. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn?**

*Dadansoddiad Meintiol: Ymatebion gan unigolion a sefydliadau*

3. Daeth cyfanswm o 16 o ymatebion i law. 14 gan sefydliadau a 2 gan unigolion.

4. Roedd 8 o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf â'r cynigion, roedd 7 yn cytuno ac roedd 1 ymateb nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig.

**Ffigur 1 CLl13: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai’r corff llywodraethiant nodi sut y mae’n bwriadu cydweithredu â’r sefydliadau a nodir, gan gynnwys sut y byddant yn osgoi dyblygu a gorgyffwrdd wrth arfer eu swyddogaethau. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn?**




*Dadansoddiad Ansoddol: Ymatebion gan unigolion a sefydliadau*

5. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion gan unigolion a sefydliadau yn ystyried bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i sicrhau bod y cyhoedd a busnesau yn deall rôl a swyddogaethau'r corff newydd.

6. Roedd llawer o'r ymatebion yn cydnabod y gorgyffwrdd â sefydliadau eraill, tebyg – fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – ac yn cymeradwyo canllawiau cyhoeddus clir sy'n disgrifio rôl y corff llywodraethiant mewn perthynas â'r sefydliadau hynny.

7. Awgrymodd un sefydliad y dylid ystyried ymhellach a ddylai rhai cyfrifoldebau drosglwyddo o gyrff presennol i'r corff llywodraethiant newydd yn gyfan gwbl pan fo gwrthdaro buddiannau posibl yn ymddangos.

8. Mynegwyd pryder ynghylch yr effaith ar adnoddau awdurdodau cyhoeddus, gyda sylw arbennig o ran y potensial ar gyfer dyblygu, gorgyffwrdd a defnydd aneffeithlon o adnoddau sydd eisoes yn gyfyngedig. Pwysleisiodd rheoleiddiwr y gall "gweithio mewn partneriaeth a chyd-lunio cynhyrchion arwain at ganlyniadau sylweddol well, ond mae angen i'r ffiniau a'r rhaniad cyfrifoldebau fod yn glir er mwyn osgoi dyblygu." Pwysleisiodd ymatebion eraill y dylai'r corff llywodraethiant gyd-fynd â'r fframwaith hwn yn effeithlon a chydnabod yr angen i osgoi cynhyrchu gwaith adrodd helaeth a fyddai'n lleihau'r capasiti i wneud gwaith ar lawr gwlad er mwyn adfer natur. Mewn perthynas â hyn, awgrymwyd y dylai'r corff llywodraethiant fod yn ymwybodol o ofynion adrodd a chynllunio presennol yr awdurdodau hynny, gyda'r bwriad o gyd-fynd â phrosesau presennol a gweithio gyda hwy pan fo modd i gael yr effaith fwyaf.

9. Nododd un sefydliad, yn ogystal â sefydlu ffyrdd o weithio gyda'r sefydliadau a restrir, y dylai fod yn ofynnol hefyd i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu â'r corff llywodraethiant i alluogi defnydd effeithlon o adnoddau ar gyfer pob parti ac i hwyluso datrysiad cyflym. Maent yn nodi, yn benodol, y dyletswyddau yn neddfwriaeth y DU a'r Alban sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi "cymorth rhesymol o'r fath ag y mae'n gofyn amdano (gan gynnwys darparu gwybodaeth)".

10. Roedd dau ymatebydd o'r farn na ddylai'r corff llywodraethiant gael ei sefydlu fel endid ar wahân ac yn hytrach y dylai fod yn rhan o sefydliadau presennol, megis Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) neu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

11. Nodwyd hefyd y bydd yn bwysig i'r corff llywodraethiant weithio'n agos gyda'r OEP, yn enwedig ar faterion trawsffiniol (megis ansawdd dŵr a faint o ddŵr, ansawdd aer a bioamrywiaeth) neu pan fo deddfwriaeth a rennir sydd angen ei dehongli yn yr un modd.